## ATODLEN 3

## Mân Ddiwygiadau a Diwygiadau Canlyniadol

### RHAN 2

### Diwygiadau a diddymiadau sy'n ymwneud â Rhan 4

*Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 (O.S. 2018/441)*

16 (1) Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(2)(b) yn lle "Cynghorau Iechyd Cymuned a Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt" rhodder "Corff Llais y Dinesydd sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo".

(3) Yn Atodlen 6—

(a) hepgorer y cofnod ar gyfer Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru;

(b) hepgorer y cofnod ar gyfer Cynghorau Iechyd Cymuned;

(c) yn y lle priodol mewnosoder—

"Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru ("*the Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales*")".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 3 para. 16 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**I2** Atod. 3 para. 16 mewn grym ar 1.4.2023 gan O.S. 2023/370, **ergl. 3(1)(t)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Paragraff 16.